**PWYLLGOR IECHYD A GWASANAETHAU CYMDEITHASOL**

**ADRODDIAD I'R CYNULLIAD**

## 1. Rhagarweiniad

1.1 Yn ôl Rheol Sefydlog 9.9 mae'n ofynnol i'r holl bwyllgorau pwnc gyflwyno adroddiad i'r Cynulliad ar eu cynnydd yn cyflawni eu blaenraglenni gwaith. Mae'r adroddiad hwn yn cwmpasu'r cyfnod o 1 Ebrill 2001 i 31 Mawrth 2002.

## 2. Aelodaeth

2.1 Cafwyd ychydig o newidiadau i aelodaeth y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn.

Kirsty Williams (Cadeirydd)
Geraint Davies
Jocelyn Davies (o fis Mawrth 2002)
Brian Gibbons
Brian Hancock (tan fis Mawrth 2002)
Jane Hutt (Gweinidog)
Ann Jones
Dai Lloyd
David Melding
Lynne Neagle
Rod Richards (o fis Mai 2001)

2.2 Etholwyd Ann Jones yn Gadeirydd dros dro o fis Hydref tan fis Rhagfyr 2001, tra'r oedd Kirsty Williams ar absenoldeb mamolaeth, a chymerodd Peter Black ei lle fel aelod o'r Democratiaid Rhyddfrydol.

## 3. Cyfarfodydd

3.1 Yn ystod y cyfnod hwn cyfarfu'r Pwyllgor yn ffurfiol 18 gwaith. Cynhaliwyd yr holl gyfarfodydd yn gyhoeddus. Wrth dderbyn tystiolaeth ar gyfer ei adolygiad o wasanaethau ar gyfer plant ag anghenion iechyd arbennig, cyfarfu'r Pwyllgor yn Aberhonddu a'r Rhyl fel y byddai pobl o Ganolbarth a Gogledd Cymru'n gallu mynychu'n haws.

## 4. Cylch Gwaith a Chyfrifoldebau

4.1 Mae cylch gwaith y Pwyllgor yn seiliedig ar bortffolio'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, sy'n cynnwys pob agwedd ar ofal iechyd; diogelwch bwyd (gan gynnwys bwyd wedi'i addasu'n enetig); gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol; plant a phobl ifanc, gan gynnwys gofal plant a chyfiawnder ieuenctid.

4.2 Rhestrir cyfrifoldebau'r pwyllgorau pwnc yn y Rheolau Sefydlog, ac fe'i hatgynhyrchir yn **Atodiad 1.**

## 5. Blaenoriaethau

5.1 Mae "Gwell Cymru" yn nodi y bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn gweithio i drawsnewid perfformiad ac ansawdd gwasanaethau iechyd a gofal yng Nghymru ac y bydd hynny'n golygu mwy o degwch, effeithiolrwydd,

effeithlonrwydd a rheolaeth ariannol, yn arbennig drwy gynllunio a chydweithredu'n well wrth gomisiynu a chyflwyno gwasanaethau.

5.2 Mae'r Pwyllgor yn nodi ei flaenoriaethau ar gyfer 2001-2002 yn y flaenraglen waith strategol yn **Atodiad 2**.

## 6. Cynnydd

6.1 Mae'r Pwyllgor wedi trafod ystod eang o faterion ac wedi derbyn yr adroddiadau diweddaraf ar y blaenoriaethau a nodwyd ar ei gyfer yn rheolaidd.

### Datblygu ac Adolygu Polisi

6.2 Mae'r Pwyllgor wedi canolbwyntio ar ddwy brif ardal:

#### i. Archwiliad o Gynigion Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer Ailstrwythuro'r GIG yng Nghymru

Nodwyd y rhain ym mhapur Llywodraeth Cynulliad Cymru "Gwella Iechyd yng Nghymru - Cynllun ar gyfer y GIG a'i Bartneriaid".

Mewn perthynas â'r cynigion hyn cafwyd dadl gan y Pwyllgor ar y Strategaeth Gofal Sylfaenol a chynlluniau ar gyfer moderneiddio eiriolaeth i gleifion. Ym mis Tachwedd cafwyd dadl ar y cynigion manwl ar gyfer newid strwythurol yn y GIG gydag aelodau o'r Grwp Gorchwyl a Gorffen Strwythurau a oedd wedi rhoi cyngor i'r Gweinidog. O ganlyniad i drafodaeth y Pwyllgor cafwyd dadl ar y cynigion wedi hynny mewn cyfarfod llawn o'r Cynulliad. Ystyriodd y Pwyllgor hefyd adroddiad Adolygiad y Grwp Llywio Cenedlaethol ar Ddyrannu Adnoddau, o dan arweiniad yr Athro Peter Townsend. Bydd gweithredu'r adroddiad yn rhan annatod o ailstrwythuro'r GIG.

Ar 5 Rhagfyr, cyfarfu'r Pwyllgor â Don Touhig, yr Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol, i drafod y ddau Fesur Iechyd a gyhoeddwyd yn araith y Frenhines ar 20 Mehefin: Mesur Diwygio'r GIG a Phroffesiynau Gofal Iechyd a Mesur GIG (Cymru). Dyma'r tro cyntaf i Weinidog o Swyddfa Cymru fynychu un o Bwyllgorau'r Cynulliad ac roedd yn gyfle defnyddio i friffio'r Pwyllgor ar gynnydd Mesur Diwygio'r GIG yn y Senedd.

Yn yr un cyfarfod, ystyriodd y Pwyllgor hefyd ganlyniadau Ymarfer Cynllunio'r Gweithlu ar gyfer 2001, a nododd safbwynt y GIG ar ei anghenion staffio yn y dyfodol ac, yn wahanol i flynyddoedd blaenorol, roedd yn seiliedig ar yr "angen" yn hytrach na'r arian sydd ar gael. Bydd y Pwyllgor yn ystyried y mater hwn ymhellach yn yr haf, unwaith y bydd canlyniadau'r ymarfer wedi'u cadarnhau.

#### ii. Adolygiad o Wasanaethau ar gyfer Plant ag Anghenion Iechyd Arbennig

Nododd y Pwyllgor iechyd plant fel maes yr oeddent am ganolbwyntio arno yn fanylach, gyda golwg ar ddatblygu polisi.  Ym mis Mehefin, cytunwyd i gynnal adolygiad yn cwmpasu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol i blant ag anghenion iechyd arbennig, gan gynnwys diagnosis cynnar o anghenion iechyd arbennig a darparu gwasanaethau therapiwtig.

Yn dilyn ymarfer ymgynghori cyhoeddus eang, dewisiwyd 18 o sefydliadau i roi tystiolaeth lafar i'r Pwyllgor mewn sesiynau yng Nghaerdydd, Aberhonddu a'r Rhyl.  Roedd y sefydliadau yn cynrychioli ystod eang o ddiddordebau, gan gynnwys grwpiau i rieni, sefydliadau gwirfoddol, y GIG, awdurdodau lleol ac ysgol.  Comisiynodd Swyddfa Ymchwil a Datblygu Cymru adolygiad o lenyddiaeth.

Bydd y Pwyllgor yn awr yn ystyried y dystiolaeth a dderbyniodd, gan gynnwys yr adolygiad o lenyddiaeth, a bydd yn cyflwyno adroddiad i'r Cynulliad yn ddiweddarach eleni.

**Monitro a Chraffu**

6.3. Llwyddodd y Pwyllgor i fonitro'r gwaith o roi'r Ddeddf Safonau Gofal ar waith.  Bydd yn cyfarfod â Chyngor Gofal Cymru yn ddiweddarach eleni.

6.4 Mae'r Pwyllgor wedi archwilio'r Gweinidog yn fanwl o ran perfformiad Llywodraeth Cynulliad Cymru drwy'r adroddiad misol y mae'n ei ddarparu. Roedd hyn yn dilyn archwiliad blaenorol o Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru a chafodd gyfle i holi aelodau o'r Comisiwn er Gwella Iechyd (CHI) a'r Pwyllgor Archwilio ynghylch eu hadroddiad ar y cyd ar Ofal Canser GIG yng Nghymru a Lloegr.  Parhaodd y Pwyllgor i fonitro cynigion ar gyfer ehangu addysg feddygol yng Nghymru.

6.5. Cafodd y Pwyllgor hefyd adroddiadau oddi wrth yr Asiantaeth Safonau Bwyd; Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol (NICE); y Comisiwn er Gwella Iechyd (CHI);  y Prif Swyddog Meddygol a'r Prif Arolygydd Gwasanaethau Cymdeithasol.

**Deddfwriaeth**

6.6. Yn ogystal â'r ddau Fesur y cyfeiriwyd atynt ym mharagraff 6.2, mae'r Pwyllgor wedi rhoi cyngor ar ddeddfwriaeth arfaethedig, gan gynnwys rheoliadau ar gyfer y Comisiynydd Plant ac, ar ôl cael ei gyfeirio gan y Dirprwy Lywydd, Rheoliadau Cymorth Gwladol (Asesu Adnoddau) (Diwygio) (Cymru) 2002 a Rheoliadau Cymorth Gwladol (Symiau at Anghenion Personol) (Diwygio) (Cymru) 2002.

**Penodiadau**

6.7 Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae David Melding a Kirsty Williams wedi bod ar y panel cyfweld ar gyfer swyddi Cadeiryddion i'r Ymddiriedolaethau canlynol:-

- Ymddiriedolaeth GIG Pontypridd a Rhondda
- Ymddiriedolaeth GIG Sir Gaerfyrddin
- Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru
- Ymddiriedolaeth GIG Sir Benfro a Derwen

Mae'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol hefyd wedi bod yn gysylltiedig â'r panelau hyn.

**Y Gyllideb.**

6.8 Ystyriodd y Pwyllgor gyllideb arfaethedig Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer 2002-2003 a gwnaeth sylwadau arni. Mae llythyr y Cadeirydd yn mynegi argymhellion y Pwyllgor yn atodiad i Flaenraglen Waith Strategol y Pwyllgor ar gyfer y flwyddyn yn **Atodiad 3** (gweler paragraff 8.1).

**7. Materion Traws-bynciol**

7.1. Mae'r Pwyllgor wedi gweithio'n agos gyda Phwyllgorau eraill. Cynhaliwyd trafodaethau ar flaenoriaethau Llywodraeth Leol a gwariant ar wasanaethau cymdeithasol a recriwtio a chadw'r gweithlu gofal cymdeithasol ar y cyd â'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai. Gwahoddwyd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai a'r Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes i enwebu aelod i gynrychioli buddiannau'r Pwyllgorau hynny yn yr adolygiad o wasanaethau ar gyfer plant ag anghenion iechyd arbennig.

7. 2. Penderfynodd y Pwyllgor y dylai Brian Hancock gynrychioli ei fuddiannau lle roedd gorgyffwrdd yn digwydd gyda'r Pwyllgor Diwylliant ar chwaraeon a iechyd, a David Melding pan oedd cysylltiad â'r Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes ar blant ag anghenion arbennig.

**8. Y Rhaglen ar gyfer y Dyfodol**

8.1 Bydd y pwyllgor yn canolbwyntio yn y Rhaglen Strategol ar gyfer 2002-2003 ar y materion canlynol a fydd, ynghyd â'i gyfrifoldebau o dan Reol Sefydlog 9.7 a 9.8, yn flaenoriaethau iddo ar gyfer cyfarfodydd:

- Rhoi cyngor i Lywodraeth Cynulliad Cymru ar gyflwyno'r cynigion ar gyfer ailstrwythuro'r GIG a datblygu'r Strategaeth Gofal Sylfaenol. Bydd hyn yn golygu gwneud archwiliad manwl o:
  - is-ddeddfwriaeth sy'n deillio o Fesur Diwygio'r GIG a Phroffesiynau Gofal Iechyd;
  - y Mesur GIG (Cymru) drafft; a
  - polisïau newydd nad oes angen deddfwriaeth newydd arnynt.

- Cwblhau'r Adolygiad o Wasanaethau i Blant ag Anghenion Iechyd Arbennig a monitro'r ymateb i'w argymhellion.

Kirsty Williams
Cadeirydd

**Atodiad 1**

**Dyletswyddau'r Pwyllgor**

Mae'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn un o saith pwyllgor pwnc. Rhestrir cyfrifoldebau’r pwyllgorau pwnc yn y Rheolau Sefydlog:

“9.7. Bydd pob pwyllgor pwnc

- i. yn cyfrannu at ddatblygu polisïau'r Cynulliad o fewn y meysydd y mae'r Ysgrifennydd Cynulliad perthnasol yn atebol i'r Cynulliad amdanynt;
- ii. yn cadw llygad ar y gwariant a'r weinyddiaeth sy'n gysylltiedig â'u gweithredu: ac
- iii. yn cadw llygad ar waith cyflawni'r swyddogaethau cyhoeddus yn y meysydd hynny gan gyrff cyhoeddus, gwirfoddol a phreifat.

9.8. O fewn y meysydd perthnasol, bydd pob pwyllgor pwnc hefyd:

- i. yn cynghori ar ddeddfwriaeth arfaethedig a fydd yn effeithio ar Gymru, gan gynnwys cyflawni ei swyddogaethau o dan reol sefydlog 22;
- ii. yn cynnig cyngor i Gabinet y Cynulliad ar faterion sy'n ymwneud â dyrannu cyllideb y Cynulliad yn unol â Rheol Sefydlog 19;
- iii. yn cyflawni ei swyddogaethau o dan Reol Sefydlog 21 (cwynion);
- iv. yn cyflawni unrhyw swyddogaethau a neilltuir iddo o dan y Cod Ymarfer ar Weithdrefn Penodiadau Cyhoeddus a wneir gan y Cynulliad o dan Reol Sefydlog 20; ac
- v. yn ystyried materion y bydd y Cynulliad yn eu cyfeirio ato o fewn ei feysydd."

O dan Reol Sefydlog 9.9 mae’n rhaid i bwyllgorau pwnc gynnal rhaglenni gwaith treigl a fydd yn cynnwys cyfnodau o 12 mis o leiaf.

**Atodiad 2**

**Y PWYLLGOR IECHYD A GWASANAETHAU CYMDEITHASOL BLAENRAGLEN WAITH**

**Medi 2000 - Rhagfyr 2001**

**RHAGLEN STRATEGOL**

## Dyletswyddau'r Pwyllgor

Mae'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn un o chwe phwyllgor pwnc. Nodir cyfrifoldebau'r pwyllgorau pwnc yn Rheolau Sefydlog y Cynulliad Cenedlaethol:

"9.7. Bydd pob pwyllgor pwnc

i. yn cyfrannu at ddatblygu polisïau'r Cynulliad o fewn y meysydd y mae'r Ysgrifennydd Cynulliad perthnasol yn atebol i'r Cynulliad amdanynt;
ii. yn cadw llygad ar y gwariant a'r weinyddiaeth sy'n gysylltiedig â'u gweithredu; a
iii. yn cadw llygad ar waith cyflawni'r swyddogaethau cyhoeddus yn y meysydd hynny gan gyrff cyhoeddus, gwirfoddol a phreifat.

9.8. O fewn y meysydd perthnasol, bydd pob pwyllgor pwnc hefyd,

i. yn cynghori ar ddeddfwriaeth arfaethedig a fydd yn effeithio ar Gymru, gan gynnwys cyflawni ei swyddogaethau o dan Reol Sefydlog 22;
ii. yn rhoi cyngor i Gabinet y Cynulliad ar faterion sy'n ymwneud â dyrannu cyllideb y Cynulliad yn unol â Rheol Sefydlog 19;
iii. yn cyflawni ei swyddogaethau o dan Reol Sefydlog 21 (cwynion);
iv. yn cyflawni unrhyw swyddogaethau a neilltuir iddo o dan y Cod Ymarfer ar Weithdrefn Penodiadau Cyhoeddus a wneir gan y Cynulliad o dan Reol Sefydlog 20; ac
v. yn ystyried materion y bydd y Cynulliad yn eu cyfeirio ato o fewn ei feysydd."

O dan Reol Sefydlog 9.9, mae'n ofynnol i'r pwyllgor pwnc gynnal rhaglen waith dreigl sy'n cwmpasu cyfnodau o 12 mis, o leiaf.

## Nodau ac Amcanion y Pwyllgor

Yr amcan allweddol ym mlaenraglen waith y Pwyllgor yw integreiddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'r rhaglen yn mynd i'r afael â'r materion allweddol, sef ymdrin ag anghydraddoldebau iechyd a'r ffactorau sy'n arwain at afiechyd. Bydd y Pwyllgor yn sicrhau ei fod, wrth adolygu a datblygu polisi, yn gwneud argymhellion a fydd yn arwain at wasanaethau o

safon uchel sy'n rhoi gwerth am arian. Bydd hefyd am sicrhau ei fod yn fodlon bod gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harchwilio'n briodol, yn enwedig y rheini ar gyfer pobl sy'n agored i niwed.

Mae'r ethos hwn yn cyd-fynd ag egwyddorion "Gwell Cymu", cynllun strategol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

**Y Cynlluniau Statudol**

Bydd y Pwyllgor hefyd yn cymryd i ystyriaeth gynlluniau statudol y Cynulliad Cenedlaethol ar gyfer cysylltiadau ag awdurdodau lleol a'r sector gwirfoddol, a'r cynllun datblygu cynaliadwy.

Bydd y Pwyllgor yn ystyried adroddiad ar gyfarfodydd Gweinidog y Cynulliad gyda'r Sector Gwirfoddol o leiaf unwaith y flwyddyn yn unol ag adran 3.7 o'r Cynllun Sector Gwirfoddol.

**Materion Trawsbynciol**

Bydd y Pwyllgor yn ystyried y berthynas rhwng ei waith ei hun a gwaith pwyllgorau eraill. Er enghraifft mae'r Pwyllgor wedi penderfynu y dylai Brian Hancock gynrychioli'r Pwyllgor lle bo yna orgyffwrdd â'r pwyllgor Diwylliant ar chwaraeon ac iechyd a David Melding lle bo cysylltiadau â'r Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes ar blant ag anghenion arbennig.

**Blaenoriaethau'r Pwyllgor**

Mae "Gwell Cymru" yn datgan y bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn gweithio i weddnewid perfformiad a safon gwasanaethau iechyd a gofal yng Nghymru ac y bydd yn sicrhau mwy o degwch, gwell effeithiolrwydd, effeithlonrwydd a rheoli ariannol, yn enwedig drwy gynllunio a chydweithredu'n well wrth gomisiynu a chyflwyno gwasanaethau. Mae'r Pwyllgor eisoes wedi ymdrin â llawer o'r materion a nodwyd yn "Gwell Cymru" fel materion y dylai'r Cynulliad weithredu arnynt yn gyflym. Bydd yn parhau i geisio cyflawni amcanion "Gwell Cymru".

- **Comisiynydd Plant i Gymru**. Bydd y Pwyllgor yn cael cyfle i wneud sylwadau ar reoliadau a monitro hynt gwaith y Comisiynydd.
- **Rhaglenni Gwella Iechyd**. Bydd yn parhau i fonitro sut y bydd y rhaglenni hyn yn datblygu ac yn cael eu gweithredu fel rhan o'i waith yn archwilio awdurdodau iechyd.
- **Amserau Aros mewn Ysbytai**. Bydd y pwyllgor yn parhau i fonitro perfformiad ar amseroedd aros mewn ysbytai a'r pwysau ar yr NHS.
- **Trefniadau cyllido tecach i'r NHS**. Mae'r Pwyllgor wedi comisiynu adolygiad o fformwla dyrannu adnoddau'r NHS. Bydd y Pwyllgor yn ystyried adroddiad y Grwp Llywio Cenedlaethol yng nghyd-destun "Gwella Iechyd yng Nghymru - Cynllun i'r GIG ynghyd â'i Bartneriaid'.

- **Amddiffyn y rhai sydd mewn gofal yn well**. Bydd y pwyllgor yn rhoi cyngor ar sefydlu'r Cyngor Gofal i Gymru i godi safonau'r gweithlu, a hefyd ar Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru i wella'r ffordd y rheolir gwasanaethau. Bydd hefyd yn rhoi cyngor ar weithredu'r Ddeddf Plant (Gadael Gofal).
- **Ffordd newydd o edrych ar ofal iechyd sylfaenol**. Bydd yn parhau i gynghori ar ddatblygu'r strategaeth gofal sylfaenol.
- **Agwedd newydd a arweinir gan y gymuned at iechyd sy'n mynd i'r afael ag anghydraddoldeb o safbwynt iechyd**. Bydd y Pwyllgor yn monitro cynnydd y Grwpiau Iechyd Lleol.
- **Strategaeth Gofalwyr i Gymru**. Bydd yn parhau i fonitro a rhoi cyngor ar ddatblygu Strategaeth Gofalwyr.
- **Rhaglen gyfalaf wedi'i hailwampio**. Mae'r Pwyllgor yn dymuno ymwneud â'r trafodaethau cyntaf ar y rhaglen gyfalaf.
  **Moderneiddio Eiriolaeth dros Gleifion a'r Gefnogaeth iddynt**. Bydd y Pwyllgor yn adolygu'r trefniadau cyfredol ar gyfer cysylltu â'r cyhoedd ac eiriolaeth dros gleifion.

Yn ystod ei drafodaethau ar flaenoriaethau'r gyllideb ar gyfer 2001-2002, nododd y Pwyllgor nifer o flaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn nesaf a thu hwnt, a bydd yn monitro'u datblygiad. Nodwyd y rhain yn y llythyr, dyddiedig 12 Gorffennaf 2000, oddi wrth Gadeirydd y Pwyllgor at Ysgrifennydd y Cynulliad:

> **"Gwella iechyd a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau**
>
> Dylid mynd i'r afael â phroblemau cymunedau difreintiedig, gyda phwyslais ar y cymunedau hynny lle mae'r afiechyd mwyaf, yn enwedig drwy'r rhaglen Rhoi Cymunedau'n Gyntaf. Dylid ystyried cyfraniad posibl ardaloedd gweithredu gofal iechyd/cymdeithasol yn y mannau hyn.
>
> **Gwasanaethau Plant**
>
> Erys sefydlu swydd Comisiynydd Plant i Gymru yn flaenoriaeth uchel.
>
> **Gwasanaethau ar gyfer yr henoed**
>
> Mae angen gwneud darpariaethau er mwyn ymateb yn gadarnhaol i adroddiad y Comisiwn Brenhinol ar Ofal Tymor Hir ar gyfer yr Henoed. Byddai cost ynghlwm wrth well reoliadau a gwell safonau. Byddai hyn yn effeithio ar awdurdodau lleol a'r sector gwirfoddol. Cred y Pwyllgor ei bod yn bwysig sefydlogi cyllid ar gyfer y sector gwirfoddol.
>
> **Datblygiadau clinigol a gwasanaethau**
>
> Yng ngoleuni'r lefelau cancr a chlefyd coronaidd y galon yng Nghymru, mae'n rhaid i awdurdodau iechyd barhau i gael yr adnoddau sydd eu hangen i wella gwasanaethau. Mae hefyd yn rhaid i awdurdodau gael

yr adnoddau i gynyddu gallu gwasanaethau lle bo angen. Dylid monitro eu heffeithiolrwydd drwy eu Cynlluniau Gwella Iechyd.

**Gwasanaeth Ambiwlans**

Roedd y pwyllgor yn bryderus y dylai'r Gwasanaeth Ambiwlans gael yr adnoddau i ddarparu gwasanaethau o safon.

**Strategaeth Adnoddau Dynol**

Mae'n hanfodol bod cyllid digonol ar gael i recriwtio a datblygu staff ac i fod yn sail i'r strategaeth os ydym am gyflawni blaenoriaethau eraill.

**Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)**

Mae'r defnydd effeithiol o TGCh a thele-feddygaeth hefyd yn bwysig i sicrhau effeithlonrwydd gwasanaeth iechyd modern.

**Y Sector Gwirfoddol**

Mae'n rhaid i'r sector gwirfoddol gael cyllid digonol a sicr os yw'n mynd i gynnal a datblygu ei gyfraniad at iechyd a gofal cymdeithasol."

**Atodiad 3**

## PWYLLGOR IECHYD A GWASANAETHAU CYMDEITHASOL

## BLAENRAGLEN WAITH FANWL

## RHAN 1 - RHAGLEN STRATEGOL
## Mai 2002 tan Fai 2003

### Dyletswyddau'r Pwyllgor

Mae'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn un o saith pwyllgor pwnc. Rhestrir cyfrifoldebau'r pwyllgorau pwnc yn Rheolau Sefydlog y Cynulliad Cenedlaethol:

"9.7. Bydd pob pwyllgor pwnc

- i. yn cyfrannu at ddatblygu polisïau'r Cynulliad o fewn y meysydd y mae'r Ysgrifennydd Cynulliad perthnasol yn atebol i'r Cynulliad amdanynt;
- ii. yn cadw llygad ar y gwariant a'r weinyddiaeth sy'n gysylltiedig â'u gweithredu: a
- iii. yn cadw llygad ar waith cyflawni'r swyddogaethau cyhoeddus yn y meysydd hynny gan gyrff cyhoeddus, gwirfoddol a phreifat.

1.8. O fewn y meysydd perthnasol, bydd pob pwyllgor pwnc hefyd:

- i. yn cynghori ar ddeddfwriaeth arfaethedig a fydd yn effeithio ar Gymru, gan gynnwys cyflawni ei swyddogaethau o dan reol sefydlog 22;
- ii. yn cynnig cyngor i Gabinet y Cynulliad ar faterion sy'n ymwneud â dyrannu cyllideb y Cynulliad yn unol â Rheol Sefydlog 19;
- iii. yn cyflawni ei swyddogaethau o dan Reol Sefydlog 21 (cwynion);
- iv. yn cyflawni unrhyw swyddogaethau a neilltuir iddo o dan y Cod Ymarfer ar Weithdrefn Penodiadau Cyhoeddus a wneir gan y Cynulliad o dan Reol Sefydlog 20; a
- v. yn ystyried materion y bydd y Cynulliad yn eu cyfeirio ato o fewn ei feysydd."

O dan Reol Sefydlog 9.9 mae'n rhaid i bwyllgorau pwnc gynnal rhaglenni gwaith treigl a fydd yn cynnwys cyfnodau o 12 mis o leiaf.

I gael manylion am aelodau'r Pwyllgor cliciwch yma*[insert hyperlink]*

## Nodau ac Amcanion y Pwyllgor

Prif amcan blaenraglen waith y Pwyllgor yw integreiddio'r gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'r rhaglen yn ymdrin â phrif faterion mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd a phenderfynyddion iechyd gwael. Wrth adolygu a datblygu polisi bydd y Pwyllgor yn gwneud yn siwr y bydd yn gwneud argymhellion a fydd yn arwain at wasanaethau gwerth am arian o ansawdd uchel. Bydd hefyd am sicrhau bod gwasanaethau yn cael eu rheoleiddio a'u harchwilio'n gywir, yn enwedig gwasanaethau i bobl ddiamddiffyn.

## Blaenoriaethau'r Pwyllgor

Ar gyfer cyfnod y blaenraglen waith bydd ffocws strategol y Pwyllgor ar y materion canlynol a fydd, ynghyd â'i gyfrifoldebau o dan Reol Sefydlog 9.7 a 9.8, yn flaenoriaethau ar gyfer cyfarfodydd y Pwyllgor sy'n:

1. Rhoi cyngor i Lywodraeth Cynulliad Cymru ar gyflwyno'r cynigion ar gyfer ailstrwythuro'r GIG a datblygu'r Strategaeth Gofal Sylfaenol. Bydd hyn yn golygu gwneud archwiliad manwl o:
   - is-ddeddfwriaeth sy'n deillio o Fesur Diwygio'r GIG a Phroffesiynau Gofal Iechyd;
   - y Mesur GIG (Cymru) drafft; a
   - polisïau newydd nad oes angen deddfwriaeth newydd arnynt.

2. Cwblhau'r Adolygiad o Wasanaethau i Blant ag Anghenion Iechyd Arbennig a monitro'r ymateb i'w argymhellion.

Bydd y Pwyllgor hefyd yn rhoi blaenoriaeth i archwilio'r  Gweinidog yn fanwl drwy'r adroddiadau misol.

## Y Cynlluniau Statudol

Bydd y Pwyllgor hefyd yn ystyried cynlluniau statudol y Cynulliad Cenedlaethol o ran cysylltiadau gyda'r awdurdodau lleol a'r sector gwirfoddol, a'r cynllun datblygu cynaliadwy.

Bydd y Pwyllgor yn ystyried adroddiad ar gyfarfodydd y Gweinidog gyda'r Sector Gwirfoddol o leiaf unwaith y flwyddyn yn unol ag adran 3.7 o'r Cynllun Sector Gwirfoddol.

## Eitemau Eraill

Os bydd gan y Pwyllgor amser yn ei raglen gall hefyd edrych ar rai neu'r cyfan o'r materion canlynol rhwng Mai 2002 ac Ebrill 2003:

- adolygiad polisi o'r cysylltiadau rhwng tai a iechyd.
  - cynigion ar gyfer contract meddyg teulu newydd;
  - Cyngor Gofal Cymru;
  - Siarter Iechyd a Gofal Cymdeithasol ;
  - y Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn;
  - gofal cartref - canllawiau i awdurdodau lleol ynghylch codi tâl;
  - fflworideiddio dŵr;
  - cynllunio'r gweithlu ac astudiaeth o ddiwylliannau ysbytai;
  - y cynnydd a wnaed i leihau amseroedd aros ysbytai a'r pwysau ar y GIG, gan gynnwys oedi wrth drosglwyddo gofal;
  - Rhaglen Gyfalaf y GIG;
  - adroddiad Kennedy ar y Bristol Royal Infirmary
  - Yr agweddau ar iechyd yn adroddiad ymchwiliad Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth i safle tirlenwi Nantygwyddon.
  - Goblygiadau adroddiad yr ymchwiliad i farwolaeth Victoria Climbie

**Materion Traws-bynciol**

Bydd y Pwyllgor yn ystyried y cysylltiad rhwng ei waith a gwaith pwyllgorau eraill. Ymysg y materion a fydd yn cael sylw yn ystod y 12 mis nesaf, sy'n cysylltu â phwyllgorau eraill, bydd:

- Adolygiad o'r Gwasanaethau ar gyfer plant ag Anghenion Iechyd Arbennig *(Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai a Phwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes)*;
- Adolygiad o Iechyd a Thai *(Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai)*; ac
- Yr agweddau ar iechyd yn yr ymchwiliad i safle tirlenwi Nantygwyddon *(Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth).*

**Blaenoriaethau Cyllidebol 2002-2003**

Yn ystod ei drafodaethau ar y blaenoriaethau cyllidebol ar gyfer 2002-2003, nododd y Pwyllgor nifer o flaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn nesaf ac ar gyfer y blynyddoedd wedyn, a bydd yn monitro sut yr eir ati i'w cyflawni. Fe'u nodwyd fel a ganlyn yn y llythyr dyddiedig 17 Gorffennaf 2001 oddi wrth Gadeirydd y Pwyllgor at yr Ysgrifennydd Cynulliad:

> "Cefnogodd y Pwyllgor y blaenoriaethau a nodwyd yn adran 6 eich papur*. Roedd yr aelodau'n cytuno bod gwasanaethau'r galon, canser a iechyd meddwl yn parhau i fod yn flaenoriaeth bwysig. Roedd hefyd yn bwysig parhau i gynyddu'r capasiti a chynnal y Gronfa Anghydraddoldebau Iechyd.
>
> Barn y Pwyllgor oedd bod angen ymdrin â'r broses o ymestyn addysg feddygol ac addysg arall sy'n ymwneud â'r proffesiwn iechyd, ynghyd â chymorth ac anogaeth i fyfyrwyr, fel blaenoriaeth.

Cytunodd y Pwyllgor hefyd y dylid parhau i gefnogi'r gwasanaethau cymdeithasol. Roedd datblygu'r ddarpariaeth o frecwast mewn ysgolion a siopau gwerthu ffrwythau hefyd yn bwysig.

Mewn trafodaeth a ddilynodd ar Bartneriaethau Cyhoeddus / Preifat a'r Fenter Cyllid Preifat cytunodd y Pwyllgor fod cael digon o gyllid ar gyfer cynnal a datblygu cyfalaf yn hanfodol.

Gofynnodd y Pwyllgor y dylid ystyried ariannu'r Gwasanaeth Ambiwlans yn ganolog."

*Papur HSS-11-01(p3), 4 Gorffennaf 2001 - dyfyniad o'r Atodiad